

PALMER, HENRY (1679 - 1742), gweinidog Annibynnol

Enw: Henry Palmer
Dyddiad geni: 1679
Dyddiad marw: 1742
Plentyn: John Palmer
Plentyn: George Palmer
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Llwyndrysi, Llan-gan, Caerfyrddin. Ffermwr oedd ef, ac aelod o gynulleidfa Henllan Amgoed; ond yn y gwrthryfel yn erbyn [Jeremy Owen](#) yno yn 1711, dilynodd [Mathias Maurice](#) i'r gwersyll arall yn Rhyd-y-ceisiaid, a daeth yn henuriad athrawiaethol yno. Eithr gyda'i holl ymlyniad wrth egwyddorion Calfiniaeth ac Annibyniaeth, gwr hynaws a hoffus ynddo'i hun oedd Palmer; ac y mae'n werth sylwi bod [Jeremy Owen](#) a [Maurice](#) fel ei gilydd, er garwed eu hiaith am bobl eraill, yn cytuno yn eu parch dyfnaf at Palmer. Wedi i sefyll yn y frwydr ddistewi, a phan oedd bugeiliaeth Henllan yn wag drachefn, gwahoddwyd Palmer i ddechrau i'w hen eglwys yn Henllan, ac yn 1721 urddwyd ef yn fugail arni. Yno y bu weddill ei fywyd. Pan dorrodd y Diwygiad Methodistaidd allan, gwelwyd ewyllys dda Palmer unwaith eto. Bu [Howel Harris](#) yn aros yn ei ddiwydion am noson (10 Mawrth) yn 1740, ac yr oedd Palmer yn un o'r rhai a arwyddodd lythyr (Trevecka Letter 231) at [Harris](#) i'w ailwahodd i'r ardal. Bu farw 12 Rhagfyr 1742. Yr oedd un o'i feibion, GEORGE PALMER (a fu farw 1750), yn weinidog yn Abertawe; bu un arall, John Palmer, yn henuriad dylanwadol iawn yn Henllan am faith flynyddoedd - bu farw 1 Ionawr 1800, yn 86 oed. Olynydd (1746) Henry Palmer ym mugeiliaeth Henllan oedd [Thomas Morgan](#).

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, 340, 341, 347, 352

A History of Carmarthenshire, ii, 1939 - chwilier y fynegai

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733155](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

